

GWYN (GWYNN, GWYNNE, neu WYNN), JOHN (bu farw 1574), gŵr o'r gyfraith a noddwr addysg

Enw: John Gwyn
Dyddiad marw: 1574
Rhiant: John Wyn ap Maredudd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gŵr o'r gyfraith a noddwr addysg
Maes gweithgaredd: Addysg; Cyfraith; Dyngarwch
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn Gwydir, Llanrwst, y pumed a'r ieuengaf o feibion [John Wyn ap Meredydd](#), a oedd yn disgyn yn uniongyrchol o [Owain Gwynedd](#). Ei frawd hynaf, [Morys](#), ydoedd tad [Syr John Wynn](#) o Wydir; daeth ei frawd Robert (y gŵr a adeiladodd y Plas Mawr, Conwy) yn ail ŵr Dorothy Williams, nain yr [archesgob John Williams](#).

Aeth John Gwyn i Goleg Queens', Caergrawnt, yn 1545, a graddiodd (B.A.) yn 1548; yna cafodd ei ethol yn gymrawd yng Ngholeg S. Ioan lle y cymerodd ei M.A. yn 1551 ac LL.D. yn 1560. Pan fu Henry a Charles Brandon, dugiaid Suffolk ac aelodau o'r coleg, farw o'r 'clefyd chwysol' ('sweating sickness') yn 1551, yr oedd Gwyn yn un o'r rhai a ysgrifennodd ar gân er coffa amdanynt. Bu'n proctor yn 1555-6 eithr nid cywir mo'r hyn a ddywed ei nai [Syr John](#) (yn ei [The history of the Gwydir family](#)) mai efe, fel proctor, a fu'n gyfrifol am gymryd John Dudley, dug Northumberland, i'r ddalfa pan fethodd yn ei gais i wneuthur Lady Jane Grey yn frenhines - cymerodd hynny le ddwy flynedd yn gynt ac o dan broctoriaid eraill. Yn 1550, pan nad oedd eto ond B.A., cafodd sedd canon Llanfair Dyffryn Clwyd yn eglwys gadeiriol Bangor - trwy brydles ar law'r cabidwl, efallai; rhoes hi i fyny'r flwyddyn ddilynol er mwyn i'w ail frawd Griffith ei chael, eithr cymerodd hi eilwaith yn 1555 a'i chadwyd hyd ei farw, gan wrthwynebu pob ymgais a wnaethpwyd gan yr archesgob Parker i'w gael i'w rhoddi i fyny. Yn 1556 fe'i dewiswyd yn rheithor di-ofal Llanrhaeadr yng Nghinmerch. Adroddodd yr [esgob Rowland Meyrick](#) ei fod yn un o bedwar cyfreithiwr anordeiniedig yn dal bywiolaethau yn yr esgobaeth. Ymddengys na ddeuai byth i'r fywoliaeth gan iddo aros yng Nghaergrawnt nes gorffen ei waith ar gyfer gradd doethur a symud wedi hynny i Lundain (Paternoster Row); yno fe'i derbyniwyd yn 1560 yn un o'r pleidwyr yng Ngholeg y Doethuriaid yn y Gyfraith; y flwyddyn ganlynol cafodd ei dderbyn i'r Middle Temple. Manteisiodd ar ei ddylanwad yn y brifddinas i hyrwyddo buddiannau ei deulu yng Ngogledd Cymru. Bu'n aelod dros fwrdeisdref Aberteifi yn seneddau 1553 a 1563, a thros sir Gaernarfon yn 1572. Cafodd gan y Goron (yn 1563) brydles un-mlynedd-ar-hugain ar y swydd o raglaw sir Aberteifi (gan dalu 'rhent' o 20 nobl y flwyddyn amdani), tua'r un adeg cafodd arglwyddiaeth Maenan (rhan o stadau abaty diddymedig Aberconwy); maentumid yn ddiweddarach gan [Dr. Elis Prys](#) iddo hefyd geisio (trwy iarll Leicester, arglwydd Denbigh, 1564) cael trosglwyddo cwmwd Ardudwy iddo. Dywed [Syr John Wynn](#) ei fod yn 'learned and a Wise Man and a bountifull housekeeper.'

Bu farw, yn ddi-briod, yn 1574 a chanddo eiddo lawer ('gathered a great Estate') a adawodd i'w frawd a'i ysgutor, Griffith; yn ei ewyllys, 1 Mehefin, 1574, yr oedd wedi gwneuthur trefniant (fe'i dyfynnir yn *Cal. of Wynn Papers*, 54; Baker, *Hist. of St. John's College*, i, 421-2; Barber and [Lewis](#), *Hist. of Friars' School*, 170-1), i £40 y flwyddyn allan o stad Maenan fynd at gynnal tri chymrodor a chwech ysgolor yng Ngholeg S. Ioan - a bod blaenoriaeth i'w roddi, ynglŷn â'r ethol yn gymrodyr, i rai o Lanfair a Llanrhaeadr, cymydau Maenan a Nanconwy, a siroedd Caernarfon, Dinbych, a Meirionnydd, ac, ynglŷn â'r ysgoloriaethau, i ddisgyblion Ysgol y Friars, Bangor. Gwnaethpwyd ymdrechion, eithr yn ofer, i wrthwynebu'r ewyllys; haerid na ellid gadael tiroedd y Goron mewn ewyllys heb ganiatâd oddieithr i'r aer-yn-âl-y-gyfraith; cytunodd Griffith Wynn a'i gyd-ysgutor y [doctor Henry Jones](#) i drefnu mai dau a gâi eu dewis yn gymrodyr a thri yn ysgolorion - yr oedd y ddau gymrodor i'w hethol y tro cyntaf gan Griffith Wynn ac yna gan y coleg o blith 'ysgolorion Gwyn' neu o ysgolion Friars neu Ruthyn, a'r ysgolorion gan Wynn a'i etifeddion-yn-ôl-y-gyfraith mewn cydymgyngoriad â meistri ysgolion Friars a Rhuthyn, ac os methai'r modd hwn yr oedd hawl gan y coleg i ethol rhai o'r tair sir a enwyd. Ymhlith y rhai a allodd fanteisio ar y gymynrodd yr oedd mab Griffith, [OWEN GWYN](#), meistri Coleg S. Ioan, ei or-or-nai, [John Williams](#), archesgob York, [David Dolben](#), esgob Bangor, ac amryw o aelodau teulu [Bodwrda](#). Mewn canlyniad i orchymyn yn y Siansri yn 1650 diddymwyd y cymrodoriaethau, oherwydd na allai'r stad eu cynnal mwyach, ond cadwyd yr ysgoloriaethau, a hyd at yr Adferiad rhoddid y flaenoriaeth i'r ysgolion yn eu cais am gymrodoriaethau gwreiddiol y brifysgol.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 184, 281

Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927), 74

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515–1690, in the National Library of Wales and elsewhere, 38-9, 45, 54, 60, 63, 2505
Venn, *Alumni Cantabrigienses*, ii, 277

C. H. Cooper, *Athenae Cantabrigienses* (1858–1913), i, 324, 561

Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae* (1854), i, 120; ii, 618

Browne Willis, *A survey of the cathedral church of Bangor; and the edifices belonging to it ...* (1721), 262

R. Newcome, *A memoir of Gabriel Goodman Dean of Westminster during forty years of the reign of Queen Elizabeth, the restorer of the wardenship of Ruthin with some account of Ruthin school, and the names of its most eminent scholars, etc* (1825), App. L

A. Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the sixteenth century being a digest of the registers of the bishops, A.D. 1512-1646* (1923), 12, 14, 15, 22

Baker, *The History of St. John's College*, i, 421-2 547; ii, 1037, 1072

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 36, 59

N.L.W., *Llawysgrifau Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* L 1309-10, 1312-3, 1317-9

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733124](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733124)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

